# ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

### Ceisiadau'n ymwneud â gorchmynion rheoli dros dro a gorchmynion rheoli terfynol

**31.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 114(7) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn y dylai gorchymyn rheoli terfynol sy'n bodoli eisoes barhau mewn grym tra disgwylir ymdrin ag apêl yn erbyn gorchymyn rheoli terfynol newydd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli terfynol sy'n bodoli eisoes;

(b) copi o'r gorchymyn rheoli terfynol newydd a wnaed i ddisodli'r gorchymyn hwnnw; ac

(c) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud y gorchymyn rheoli terfynol newydd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.